

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Canolfan Iechyd Coffa Rhyfel
Crucywel, Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill
2017

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a ganfuom.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol.....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

I wirio bod pobl yng Nghymru yn cael gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn gweithredu mewn modd agored a gonest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu mewn modd effeithlon, effeithiol a chymesurol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi,

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Iechyd Coffa Rhyfel Crucywel, Stryd Beaufort, Crucywel, Powys, NP8 1AG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 10 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygydd cymheiriaid meddygon teulu, adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir dod o hyd i fanylion pellach ar sut yr ydym yn cynnal arolygiadau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom fod y tîm staff yn y practis yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd da i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli a'i arwain yn dda gan reolwr practis a meddygon teulu partner brwdfrydig. Gwelsom gydweithrediad da rhwng pob aelod o'r tîm staff. Roedd trafodaethau rhwng staff a chleifion yn gwrtais ac yn foesgar, ac roedd hyn yn hybu parch a charedigrwydd.

Roedd cleifion yn hapus â'r driniaeth yr oedden nhw yn ei chael ac roeddent yn ddiolchgar iawn i'r tîm staff am y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn hapus â'r gwasanaeth a safonau'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd gan y ganolfan iechyd.
- Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â chleifion mewn modd hamddenol a chwrtais.
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr.
- Roedd yr amgylchedd ffisegol o safon dda ac roedd digonedd o fannau eistedd a lleoedd i gleifion â chymhorthion symudedd a chadeiriau olwyn.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nid oedd y ddwy ystafell driniaeth yn y man aros yn darparu digon o breifatrwydd i gleifion oherwydd gellid clywed trafodaethau preifat.
- Mae angen gwelliannau o ran defnyddio adnoddau / darpariaethau Cymraeg.
- Dylai'r holl staff perthnasol a gyflogir yn y ganolfan iechyd gael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Rhaid i'r holl staff gael arfarniad bob blwyddyn.

Er hwylustod darllen, cyfeirir at Ganolfan Iechyd Coffa Rhyfel
Crucywel fel 'y practis' trwy gydol yr adroddiad hwn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Iechyd Coffa Rhyfel Crucywel yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd i oddeutu 9,500 o gleifion yn ardaloedd Crucywel, Llangatwg a Thal-y-bont ar Wysg ac mae'n agos iawn at y Fenni. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys saith partner meddyg teulu, un meddyg teulu cyflogedig, pum nyrs gymwys, tri chynorthwydd gofal iechyd, fferylllydd, technegydd a dosbarthwyr fferyllfa, rheolwr practis, rheolwr swyddfa, dwy ysgrifenyddes, 13 o dderbynwyr, ac 11 o staff clerigol/gweinyddol. Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

- Iechyd plant ac imiwneiddio plant
- Clinig babanod
- Gofal mamolaeth (a ddarperir gan fydwagedd cymunedol)
- Atal cenhedlu
- Gwiriadau person iach
- Mân lawdriniaethau a mân anafiadau
- Imiwneiddio oedolion
- Hybu iechyd
- Rheoli clefydau cronig (diabetes, asthma, clefyd coronaidd y galon)
- Podiatreg
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Clinig cof
- Mind (monitro gweithredol)

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd yn briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull arolygu.

Roedd cleifion y practis yn gadarnhaol iawn ynghylch y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn. Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar, yn garedig ac yn gefnogol. Roedd sefydlogrwydd staff yn galluogi ymarferwyr i feithrin perthynas dda â'r cleifion ac roedd hyn, yn ei dro, yn hybu cysondeb y gofal a'r driniaeth.

O drafod â chleifion, nodwyd fod mynediad at apwyntiadau yn dda ac roedd y system archebu presgripsiynau amlroddadwy hefyd yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ystod yr arolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o wyth. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

Practis da. Rwy'n hapus â'r gofal a'r cymorth

Practis da – dim cwynion

Hapus iawn â'r gofal yr wyf wedi'i gael yma ers pedair blynedd

Mae'r system archebu presgripsiynau a threfnu apwyntiadau yn ardderchog

Mae'r staff yn garedig ac yn gwrtais

Gwasanaeth dibynadwy a sefydlog

Cadw'n iach

Gwnaethom adolygu cynnwys cofnodion cleifion electronig pob un o'r clinigwyr a oedd yn gweithio yn y practis. Adolygwyd 16 o gofnodion cleifion i gyd. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir bod ymgynghoriadau yn cael eu cynnal, a'u bod yn cynnwys digon o wybodaeth am ymchwiliadau a phrofion yr holwyd amdanynt. Roedd digon o fanylder yn y cofnodion i alluogi pob ymarferydd i

gael lefel dda o ddealltwriaeth o ofynion iechyd cleifion a'u triniaeth barhaus. Roedd amrediad da o wybodaeth am hyrwyddo iechyd ac addysg iechyd ar gael ym mhob rhan o'r practis. Roedd posteri a thafleuni ar gael am ddim. Nodwyd mai ychydig iawn o adnoddau Cymraeg oedd ar gael i gleifion.

Canfuom fod partneriaid y practis a'r staff rheoli yn gwbl ymroddedig i'r clwstwr lleol o feddygon teulu yn ne Powys.¹ O ganlyniad i'r cydweithrediad cadarnhaol rhwng y pedwar practis o fewn y clwstwr, sefydlwyd Cwmni Buddiannau Cymunedol ganddynt o'r enw Redkite Healthcare Solutions. Cafodd y Cwmni Buddiannau Cymunedol ei gofrestru'n swyddogol ar 26 Tachwedd 2016 ac mae'n cyflogi amrywiaeth o staff, gan gynnwys fferylllydd, technegwyr fferyllfa, ffisiotherapydd a staff rheoli. Roedd y Cwmni Buddiannau Cymunedol newydd eisoes wedi cyflwyno syniadau arloesol, megis nyrsys brysbennu, rheoli fferyllfa ac adolygu meddyginiaethau cleifion, ac roedd wedi mynd ati'n frwdfrydig i weithio gyda sefydliadau yn y trydydd sectorau megis Mind Cymru. Maen nhw wedi cyflwyno 'monitro gweithredol' – rhaglen hunan-gymorth sy'n gallu helpu cleifion sy'n dioddef â phroblemau iechyd meddwl cyfredol, gan gynnwys straen, gorbryder ac iselder. Ei brif nod yw gwella lles, hunan-barch a hyder cleifion a lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen gwasanaethau meddyg teulu ac iechyd meddwl arbenigol ychwanegol. Fel y nodwyd ynghynt, roedd hefyd amrediad da o ddeunydd ysgrifenedig ar gael am ddim yn yr ystafell aros, a oedd yn ymwneud ag addysg iechyd a hybu iechyd.

Gofal ag urddas

Roedd cleifion yn gallu cadarnhau eu presenoldeb wrth ddesg y dderbynfa neu'n electronig. Roedd gan ddesg y dderbynfa ddwy ffenestr, yr oedd un ohonynt ar yr ochr ar lefel is. Gallai pobl â phroblemau symudedd ddefnyddio hon ynghyd â'r rhai a oedd angen trafodaethau preifat. Gwelsom fod y staff wrth ddesg y dderbynfa yn gwneud pob ymdrech i siarad mor dawel â phosibl â chleifion a oedd yn 'mewngofnodi' ar gyfer apwyntiadau. Gwelwyd hefyd fod ffenestri'r dderbynfa yn cael eu cau pan na fyddai unrhyw un yno, a oedd yn hybu cyfrinachedd y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal y tu ôl i'r dderbynfa. Roedd galwadau ffôn gan gleifion yn cael eu hateb yn yr ystafell y tu ôl i ddesg y dderbynfa, a oedd yn hybu cyfrinachedd cleifion. Roedd y system 'mewngofnodi' electronig ar gael yn Saesneg yn unig, ond hysbyswyd ni fod ganddi'r gallu i fod mewn ieithoedd di-ri os oedd angen.

¹'Clwstwr' practis meddygon teulu yw grŵp o feddygon teulu a phractisau a bennwyd gan fwrdd iechyd lleol unigol yn GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus rhwydwaith (iechyd) ardal er budd cleifion.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod pob drws i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael ei gadw ar gau pan oedd staff yn cael trafodaethau â chleifion. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd dwy ystafell ymgynghori yn y man aros yn darparu digon o breifatrwydd a chyfrinachedd i gleifion, oherwydd gellid clywed trafodaethau yn cael eu cynnal o'r ystafell aros. Mae'n rhaid adolygu'r maes hwn a chymryd camau i sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd ymgynghoriadau cleifion sy'n cael eu cynnal yn yr ystafelloedd hyn.

Roedd gan y practis hysbysiadau yn y man aros a oedd yn hysbysu cleifion bod hebryngwr ar gael os oedd y cleifion yn dymuno. Nodwyd hefyd yng nghofnodion cleifion fod rhai meddygon teulu yn cofnodi bod hebryngwr wedi'i gynnig i gleifion. Mae'n arfer da i bob meddyg teulu nodi yn ffurfiol yng nghofnodion cleifion bod hebryngwr wedi'i gynnig a'i wrthod neu os oedd yn bresennol yn ystod yr archwiliad. Roedd yr holl staff nyrsio a rhai aelodau dynodedig o staff y dderbynfa wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol ar fod yn hebryngwr ac roedd hyfforddiant diweddarau hefyd yn cael ei ddarparu bob blwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd pob claf wrth ddefnyddio'r ddwy ystafell ymgynghori sydd yn ardal yr ystafell aros.

Gwybodaeth am gleifion

Roedd gan y practis wefan dda a chlir. Roedd gan y wefan y cyfleuster o allu defnyddio meddalwedd cyfieithu i newid i'r iaith ddynodedig. Roedd y practis hefyd wedi datblygu taflen llawn gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael a gwybodaeth berthnasol allweddol am y practis. Roedd y daflen hon dim ond ar gael yn Saesneg ac nid oedd yn ddwyieithog. Nodwyd y gallai'r daflen gael ei chynhyrchu mewn ffont mwy o faint i bobl â nam ar eu golwg a phobl ag anhawster gweld.

Roedd gan y practis ddwy ffenestr fewngofnodi ddynodedig, ac roedd un o'r rhain yn is i bobl ag anawsterau symud a chymhorthion symudedd. Roedd hefyd gwasanaeth mewngofnodi electronig ar gael. Dim ond Saesneg oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ond roedd meddalwedd ar gael iddo fod mewn nifer o ieithoedd ychwanegol, megis Cymraeg. Roedd hysbysiadau i'w gweld a oedd yn nodi bod system ddolen sain hefyd ar waith os oedd ei hangen i bobl drwm eu clyw.

Roedd gan y practis nifer o fyrddau gwybodaeth i gleifion ar gael yn y man aros. Roedd amrediad da o ddeunydd addysg a hyrwyddo iechyd ar gael, gan gynnwys help a chymorth gyda chyffuriau ac alcohol, cymorth i ofalwyr, cymorth i ddioddefwyr, clwb coesau, gwasanaethau gofal a thrwsio, yr eryr, gwasanaethau cymorth canser, cymorth Parkinson, a Mind, ac enwi ond ychydig. Yn ogystal â hyn, roedd bwrdd iechyd dynodedig i famau a phlant ar gael a oedd yn cynnwys gwybodaeth am bethau megis rotafirws, y pas, asid ffolig, materion a oedd yn ymwneud ag iechyd plant, a gwasanaethau cyswllt. Eto, ychydig iawn o wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg ac mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r maes hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn cael yr un pwys a lefel o sylw â'r Saesneg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer cyfathrebu mewnol i sicrhau nad oedd unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion. Roedd negeseuon yn cael eu hanfon rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol trwy dasgau neu negeseuon mewnol, a oedd yn galluogi i drywydd archwilio gael ei greu. Roedd ceisiadau am ymweliadau cartref hefyd yn cael eu cofnodi'n electronig, a gallai pob meddyg teulu weld y rhain os oedd angen.

Cynhelir ymgynghoriadau ac ymweliadau y tu allan i oriau gan Shropdoc. Hysbyswyd y practis o unrhyw ymweliadau a wnaed gan y rhain. Mae hysbysfyrddau hefyd wedi'u lleoli yn strategol mewn manau staff dan glo i hysbysu aelodau o'r staff am unrhyw farwolaethau. Bwriad y rhain yw diweddarau cofnodion y practis er mwyn osgoi anfon gohebiaeth a allai beri galar i berthnasau.

Gofal amserol

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau i weld meddyg teulu neu nyrs practis dros y ffôn neu ar-lein trwy Fy Iechyd Ar-lein. Gellid hefyd gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy gan ddefnyddio'r ddau ddull blaenorol a hefyd trwy'r fferyllfa leol neu fferyllfa'r practis ei hun.

Ar gyfer cleifion a oedd yn gofyn am apwyntiadau ar yr un diwrnod, yn bennaf ar ddydd Llun neu ddydd Gwener, roedd y practis wedi datblygu system frysbenneu a oedd yn galluogi'r practis i flaenoriaethu cleifion a'u dyrannu i'r clinigydd mwyaf priodol, a allai fod yn feddyg teulu neu'n nyrs practis. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom rai cleifion yn aros hyd at 20 munud i weld eu hymarferydd meddygol.

Roedd y practis hefyd yn defnyddio system neges destun i atgoffa cleifion am apwyntiadau i ddod a phresenoldeb penodol mewn clinigau.

Cynhaliwyd yr arolygiad ar fore dydd Llun, un o gyfnodau prysuraf yr wythnos yn y practis. Nid oedd unrhyw fodd i gleifion weld a oedd unrhyw oediadau i'w hapwyntiadau, heblaw am fynd at staff y dderbynfa. Cynghorir y practis i werthuso'r maes rheoli cyfathrebu hwn, ac i ystyried gwneud y broses yn fwy effeithiol.

Roedd y practis hefyd yn canfod cleifion â gofynion arbennig trwy wybodaeth oedd gan y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn galluogi'r practis i ddarparu apwyntiadau estynedig fel y bo angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd mynediad i'r practis trwy ddrysau electronig a oedd yn hawdd eu gweithio, yn enwedig i bobl â llai o symudedd neu'r rhai a oedd yn defnyddio cymhorthion symudedd. Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori i'r cleifion ar y llawr daear.

Roedd maes parcio bach y tu allan, a oedd yn cynnwys parcio dynodedig i'r anabl. Nodwyd ei bod hi'n anodd ar brydiau i ddod o hyd i le ar adegau prysur oherwydd y nifer cyfyngedig o leoedd parcio ceir oedd ar gael.

Hawliau pobl

O drafod â chleifion, nodwyd fod teulu a ffrindiau yn gallu dod i ymgynghoriadau gyda nhw ar bob adeg. Hysbysodd y cleifion y tîm arolygu y gallent godi unrhyw gŵyn a phryderon gyda staff y practis yn uniongyrchol pe bai angen. Nodwyd yn ystod yr ymweliad mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael yn y manau aros o ran sut i wneud cwyn. Nid oedd unrhyw bosteri yn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn. Rhaid nodi, fodd bynnag, bod gwybodaeth o ran sut i wneud cwyn ar gael yn nhaflen y practis ac ar ei wefan. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael am Gyngor Iechyd Cymuned Powys,

a allai ddarparu cymorth ychwanegol i gleifion a oedd yn dymuno codi unrhyw gŵyn/pryder ynghylch y practis.

Roedd taflen y practis hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch hawliau a chyfrifoldebau pobl. Roedd yn nodi pwysigrwydd y bartneriaeth rhwng cleifion a'r tîm gofal iechyd sylfaenol. Nodwyd fod llwyddiant y bartneriaeth yn dibynnu ar ddealltwriaeth o anghenion ei gilydd a chydweithrediad rhwng y ddau barti. Roedd yn darparu gwybodaeth am gyfrifoldebau'r practis tuag at gleifion, megis yr hawl i gyfrinachedd, hawl i weld cofnodion meddygol, a hawl i gael atgyfeiriad at arbenigwr pan fydd y claf a'r meddyg teulu yn cytuno mai dyma sydd ei angen. Roedd cyfrifoldeb cleifion tuag at y tîm gofal iechyd sylfaenol yn cynnwys dim ond gofyn am apwyntiadau brys pan fo angen a phan fo'n briodol, cyrraedd apwyntiadau ar amser, a gadael digon o amser i lythyrau meddygon ymgynghorol gyrraedd ac i ganlyniadau profion ddod i law.


Gwranddo a dysgu o adborth

O drafod â staff y practis, gwelwyd eu bod yn ceisio mabwysiadu dull agored a chadarnhaol o ymdrin â chwynion, ac roeddem yn ystyried hyn yn arfer da. Ni wnaethom archwilio'n fanwl i ba mor agos y mae'r polisi cwynion yn glynu at ganllawiau 'Gweithio i Wella' ar yr achlysur hwn. Cyfrifoldeb y practis yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â hyn wrth iddynt gynnal adolygiad llawn o'u holl bolisiâu a gweithdrefnau.

Roedd y practis yn mynd ati'n frwdfrydig i ddatblygu diwylliant dysgu ac roedd yn weithredol iawn yn y grŵp partneriaeth clwstwr lleol. Nodwyd fod cyfarfodydd y grŵp clwstwr yn ddulliau effeithiol o nodi arferion da a lledaenu'r rhain ar draws practisau'r clwstwr. Roedd grŵp ffocws cleifion yn cwrdd ddwywaith y mis ac roedd wedi'i hen sefydlu. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys aelodau o'r clwb rotari ac aelodau o'r cyngor iechyd cymuned. Mae agenda pob un o'r cyfarfodydd grŵp ffocws hyn yn ymwneud â gofal iechyd. Nid oedd cofnodion yr un o'r grwpiau ffocws hyn ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Mae sicrhau bod gwybodaeth o ran y cyfarfodydd hyn ar gael yn hawdd i'r cyhoedd yn hyrwyddo didwylledd a thryloywder ac yn galluogi'r cyhoedd i chwarae rhan lawn a chael eu hysbysu'n llawn. Dylai rheolwyr y practis sicrhau bod trafodaethau a chofnodion y cyfarfodydd hyn gan y grŵp gorchwyl ffocws ar gael i'r cyhoedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl Ffocws fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.



Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Roedd hyn oherwydd bod y cofnodion cleifion a welsom yn cynnwys gwybodaeth dda ac yn darparu cofnod clir o'r ymgynghoriadau a oedd wedi'u cynnal a chanlyniadau unrhyw brofion ac ymchwiliadau y gofynnwyd amdanynt.

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Roedd y tîm staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal/triniaeth a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael yn hawdd i gleifion ledled y practis i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd taflen wybodaeth gynhwysfawr ar gael i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi'n ddiogel ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Yn ystod ein trafodaethau â staff, cawsom ein hysbysu y byddai unrhyw risgiau posibl o fewn y practis yn cael eu codi ar unwaith gyda rheolwr y practis. Roedd y practis yn defnyddio gwasanaethau cwmni preifat i gynnal asesiadau risg penodol, rheoli diogelwch tân, a chael arweiniad ar ofynion adnoddau dynol. Mae'r ffordd y mae'r drefn staffio wedi'i gosod ar hyn o bryd yn galluogi staff i symud i rôl wahanol, gan alluogi'r gwasanaethau i barhau i gael eu darparu'n effeithiol yn y practis pe bai aelod o'r staff i ffwrdd o'r practis am gryn amser. Caiff cysondeb ei gynnal felly, ac ni effeithir ar y gwasanaethau i gleifion. Roedd gweithdrefnau hefyd yn eu lle i ddarparu cyfaill i feddygon teulu, a byddai hyn yn cael ei roi ar waith pe bai meddyg teulu i ffwrdd o'i waith.

Byddai'r cyfaill yn adolygu holl ganlyniadau'r profion cyfredol ac yn sicrhau bod anghenion, gofynion a thriniaethau parhaus cleifion yn parhau mewn modd didor.

Atal a rheoli heintiau

Cadarnhaodd trafodaethau â staff fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o groes-heintio. Roedd yr holl fannau triniaeth clinigol a welwyd fel rhan o'r arolygiad yn lân ac yn daclus. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y mannau clinigol ac yn y toiledau. Roedd nifer o flychau hylif diheintio hefyd ar gael o amgylch y practis. Mae gan y practis bolisi a gweithdrefn rheoli heintiau ar waith, a gwelwyd y rhain yn ystod yr ymweliad. Gwelsom rai o'r archwiliadau rheoli heintiau, ond nid yw'r rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Dylai'r practis adolygu a gwella'r maes ymarfer hwn er mwyn sicrhau bod arferion atal a rheoli heintiau mor dda â phosibl.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y ganolfan iechyd yn bractis â'i fferyllfa ei hun. Roedd y gwasanaeth dim ond ar gael i gleifion a oedd yn byw mwy na milltir o ganol Crucywel, ac a ystyriwyd i fod yn byw mewn ardal wledig, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Oriau agor fferyllfa'r practis oedd 9am i 5.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellid cael presgripsiynau amlroddadwy naill ai trwy gyflwyno slip presgripsiwn amlroddadwy drwy'r post neu yn y blwch ar ddesg y dderbynfa, neu drwy ddefnyddio gwasanaeth porth Fy Iechyd Ar-lein.

Roedd cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y practis ei hun o ran paratoi meddyginiaethau. Roedd gan fferyllfa'r practis ddigon o staff i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon. Roedd cofnodion o dymheredd yr oergell yn cael eu monitro bob dydd.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Yn ystod ein hymweliad, buom yn trafod yr arferion diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed sydd ar waith. Gwelwyd copïau o'r Polisi Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn ystafell un meddyg teulu ac yn ystafell rheolwr y practis. Nodwyd nad oedd yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'i leoliad. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'i leoliad os cyfyd unrhyw bryderon. Roedd gan y practis feddyg teulu dynodedig a oedd yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion. Mae cofnodion cleifion yn nodi a yw claf yn agored i niwed neu ar y gofrestr mewn perygl. Cawsom ein hysbysu fod gan y practis berthynas dda â'r nyrs arweiniol ym Mhowys ar gyfer diogelu. Roedd meddygon teulu wedi cyflawni hyfforddiant Lefel 3 mewn amddiffyn plant ac

roedd pob aelod arall o'r staff wedi cyflawni naill ai Lefel 1 neu 2, yn dibynnu ar ei rôl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o le i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r Polisi Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Caiff digwyddiadau arwyddocaol eu trafod gan y practis yn ystod cyfarfodydd y meddygon teulu sy'n bartneriaid. Ychydig iawn o wybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol oedd ar gael yn ystod ein hymweliad gan fod y cofnodion hyn yn cael eu cadw gan y meddyg teulu dynodedig mewn paratoad ar gyfer eu harfarniadau. Dylai'r practis sicrhau bod rhestr lawn a chyflawn o bob digwyddiad arwyddocaol yn cael ei chynnal a bod gwybodaeth lawn o ran yr ymchwiliad i'r digwyddiadau arwyddocaol hyn a'r canlyniadau yn cael ei chofnodi.

Roedd gan y practis hysbysfwrdd a oedd yn darparu gwybodaeth i staff o ran canllawiau newydd a newidiadau polisi. Roedd canllawiau NICE sy'n berthnasol i ofal sylfaenol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y partneriaid ac roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei dosbarthu i aelodau eraill o'r tîm fel y bo'n briodol.

Cadw cofnodion

Roedd gan y sawl a oedd yn crynhoi'r nodiadau gefndir iechyd clinigol ac roedd wedi bod yn y swydd hon ers cryn dipyn o flynyddoedd. Roedd yr unigolyn dynodedig wedi cyflawni hyfforddiant penodol o ran y codau cywir i'w defnyddio wrth grynhoi hanesion meddygol o'r gorffennol. Roedd staff clerigol ychwanegol wedi'u hyfforddi i gynorthwyo â'r gwaith o godio achosion newydd o lythyrau clinigol.

Roedd pob crynodeb wedi'i ddiwygio a chawsom ein hysbysu nad oedd unrhyw ôl-groniadau wedi'u hadrodd i'r tîm arolygu.

Roedd y cofnodion meddyg teulu a adolygwyd o safon uchel ac roedd yn hawdd i gydweithwyr ddeall y camau nesaf a darparu dilyniant o ran gofal. Nid

oedd yn ymddangos bod rhai meddygon yn defnyddio'r ddewislen gwmp ddynodedig ar gyfer math o ymgynghoriad, ac roeddent yn rhestru pob rhyngweithiad, gan gynnwys tasgau gweinyddol, fel ymgynghoriadau meddygfa, a allai achosi dryswch os nad oedd yn glir a oedd y claf wedi'i weld wyneb yn wyneb.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, canfuom dîm o staff hapus a chydlynol, a oedd yn hyderus yn eu gwaith a'u cyfrifoldebau yn y practis. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis a'r tîm o feddygon teulu a oedd yn arwain y tîm cyfan.

Roedd tasgau yn cael eu dirprwyo'n dda, gyda'r staff arweiniol yn cael eu nodi i gymryd cyfrifoldeb am feysydd pwysig, er iddynt gael eu cefnogi o hyd gan reolwr y practis (neu aelod arall o staff).

Roeddem o'r farn y byddai dulliau mwy ffurfiol o ddarparu adborth i gleifion ar y gwasanaethau a ddarperir ac ar y practis yn fuddiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein hymweliad, cawsom ein hysbysu fod gan y practis Grŵp Gorchwyl Ffocws brwdfrydig ar waith sy'n cynnwys cleifion ac arweinwyr lleol o'r ardal. Mae'r grŵp hwn yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar y practis a gofynion iechyd lleol pobl. Nid oedd cofnodion unrhyw un o'r cyfarfodydd hyn ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig bod y grŵp yn ymarfer mewn modd agored a thryloyw, felly dylid sicrhau bod cofnodion unrhyw gyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi.

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau yn yr ystafell aros. Fe'n hysbyswyd y byddai'r practis yn darparu adborth i gleifion ar unrhyw sylwadau/awgrymiadau a gynigiwyd pan oedd y cleifion wedi cynnwys gwybodaeth gyswllt. Nodwyd nad oedd unrhyw ddulliau ffurfiol eraill yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddarparu adborth i gleifion ar unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth neu ddatblygiadau yn y practis, megis adroddiad blynyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y practis yn hysbysu AGIC am sut y mae'n bwriadu darparu adborth i gleifion mewn modd cyson a rhagweithiol.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Roedd y staff y siaradom â nhw yn ystod yr arolygiad yn unfrydol hapus yn eu gwaith yn y practis. Roedd nifer o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer.

Edrychwyd ar gofnodion arfarnu staff a nodwyd nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol mewn modd amserol. Mae'r gydran hon o reoli a datblygu staff yn agwedd bwysig ar sicrhau tîm o staff cymwys a hyderus. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol unigol sy'n briodol i'w rôl yn y practis.

O drafod â rheolwr y practis ac edrych ar y cofnodion, gwelsom fod pob aelod cymharol newydd o staff wedi cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn hon wedi'i defnyddio yn y gorffennol. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bod yn siŵr o unplygrwydd yr holl staff a gyflogir yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Beth nesaf?

Rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu arnynt. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (pan fo'n gymwys):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n mynd i'w cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu'r [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Coffa Rhyfel Crucywel

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn gofyn i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei llenwi gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Coffa Rhyfel Crucywel

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle'r ydym yn gofyn i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd pob claf wrth ddefnyddio'r ddwy ystafell ymgynghori sydd yn ardal yr ystafell aros.	4.1 Gofal ag urddas	Aildrefnu'r ystafelloedd ymgynghori fel nad yw'r man ymgynghori ar bwys y drws. Symud radio'r dderbynfa i'r wal rhwng yr ystafell ymgynghori. Rydym wedi cwrdd â'r adeiladwr ac wedi cytuno i ddiweddarau'r drysau er mwyn cael rhai mwy gwrth-sain. Adolygu cynllun llawr y dderbynfa er mwyn edrych ar gynlluniau eraill ar gyfer	Rheolwr Practis	Aildrefnu'r ystafelloedd ym mis Medi 2017. Mis Medi 2017 ar gyfer gwaith adeiladu.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		seddau.		
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn cael yr un pwys a lefel o sylw â'r Saesneg.	4.2 Gwybodaeth am gleifion	Byddwn yn sicrhau bod mwy o lyfrynnau a thafleini Cymraeg. Rydym wedi rhaglennu'r system fewngofnodi awtomatig i gynnig Cymraeg neu Saesneg.	Rheolwr swyddfa	Dyddiad dechrau ar unwaith ac yn mynd ymlaen yn barhaus.
Dylai cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl Ffocws fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Byddwn yn ychwanegu hwn at yr agenda yng nghyfarfod nesaf y grŵp ffocws. Mae'r opsiynau posibl yn cynnwys: Cyfeirio at y gwasanaeth yn newyddion Crucywel / hysbysfyrddau'r dderbynfa / sgrïptiau presgripsiwn. Cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ar wefan y practis a/neu gadw copïau yn ardal y dderbynfa. Bydd y grŵp ffocws hefyd yn defnyddio'i adnoddau i ddisbarthu'r wybodaeth i'r cyhoedd.	Rheolwr y Practis / Dr Paton	Gorffennaf 2017

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o le i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r Polisi Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.	2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed	Adolygu'r holl arferion a gwybodaeth diogelu yn y sesiwn staff/hyfforddi nesaf. Mae'r Amser Dysgu Neilltuedig nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 28 Mehefin. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at yr agenda. Byddwn yn ychwanegu'r llwybr diogelu at yr hysbyswrdd yn ardal y dderbynfa.	Rheolwr Practis	Mehefin 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol bod y practis yn hysbysu AGIC am sut y mae'n bwriadu darparu adborth i gleifion mewn modd cyson a rhagweithiol.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Byddwn yn creu adran adborth ar ein tudalen rhyngrwyd, lle byddwn yn cyhoeddi newyddion a diweddariadau ar bryderon cyffredin ac arolygiadau cleifion. Gellir diweddarau'r adran hon fel y bo angen neu fel diweddariad chwarterol.	Rheolwr data	Mehefin 2017
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol.	7.1 Y gweithlu	Mae'r practis wedi cynnal arfarniadau blynyddol o bob aelod o'r staff ar bob adeg. Ymddiswyddodd ein rheolwr swyddfa yn ystod 2016 cyn cwblhau'r dasg hon, ac nid oedd rheolwr y practis yn gallu ymgymryd â'r holl waith	Rheolwr y practis / rheolwr swyddfa	Gorffennaf 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>		<p>gofynnol. O ganlyniad, collodd rhai aelodau o'r staff eu hadolygiad blynyddol.</p> <p>Mae gennym dîm cyflawn o staff rheoli bellach a bydd y polisi arfarnu blynyddol yn cael ei aildechrau i'r holl staff.</p> <p>Mae'r holl staff clinigol wedi cael datgeliad manylach llawn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Ni all y bwrdd iechyd ddarparu unrhyw ddogfennau sy'n gofyn i staff y dderbynfa a staff gweinyddol gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Polisi'r practis ers mis Mawrth 2016 yw bod pob aelod newydd o staff yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan gynnwys staff y dderbynfa a staff gweinyddol.</p> <p>Byddwn yn llunio polisi practis er mwyn sicrhau nad yw staff y dderbynfa a staff gweinyddol nad ydynt wedi cael</p>	<p>Rheolwr swyddfa</p>	<p>Mehefin 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu galw i fod yn hebryngwyr ac nad ydynt yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain â chleifion.</p> <p>Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal o hyn bob blwyddyn.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei llenwi gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Julie Chouhan

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22 Mai 2017